# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RDC(3)-18-08)

Dyddiad: 6 Tachwedd 2008
Amser: 9:00 - 11:50am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Alun Davies (Cadeirydd), Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mick Bates, Sir Drefaldwyn
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Claire Morris, Clerc
Meriel Singleton, Dirprwy Glerc

### 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.  Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhodri Glyn Thomas.  Roedd Leanne Wood yn dirprwyo ar ei ran

### 2: Ymchwiliad i Echel 2 o'r Cynllun Datblygu Gwledig: Sesiwn Dystiolaeth

RDC(3)-18-08(p1)

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Bernard Llewellyn a Mary James o NFU Cymru i'r cyfarfod a gwahoddwyd hwy i roi eu cyflwyniad ysgrifenedig.  Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

### 3: Ymchwiliad i Echel 2 o'r Cynllun Datblygu Gwledig: Sesiwn Dystiolaeth

RDC(3)-18-08(p2)

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Rhian Nowell-Phillips o Undeb Amaethwyr Cymru i'r cyfarfod a gwahoddwyd hi i roi ei chyflwyniad ysgrifenedig.  Bu'r Aelodau'n holi'r tyst.

### 4: Ymchwiliad i Echel 2 o'r Cynllun Datblygu Gwledig: Sesiwn Dystiolaeth

RDC(3)-18-08(p3)

4.1 Croesawodd y Cadeirydd John Lloyd Jones a Brian Pawson o Gyngor Cefn Gwlad Cymru i'r cyfarfod a gwahoddwyd hwy i roi eu cyflwyniad ysgrifenedig.  Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

4.2  Cytunodd Brian Pawson i ddarparu rhagor o wybodaeth am gynllun peilot mynyddoedd Cambria a'r gwaith a wnaed gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar y cysyniad o gysylltu manteision marchnata a manteision amgylcheddol cydweithio rhwng ffermwyr a ffermydd.  Cytunodd hefyd i ddarparu copi i'r pwyllgor o'r gwaith ar daliadau trwy ganlyniadau yr oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi ei gwblhau.

### 5: Ymchwiliad i Echel 2 o'r Cynllun Datblygu Lleol: Sesiwn Dystiolaeth

RDC(3)-18-08(p5)

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Simon Neale a Richard Davies o Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i'r cyfarfod a gwahoddwyd hwy i roi eu cyflwyniad ysgrifenedig.  Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

5.2 Cytunodd Simon Neale i ddarparu nodyn am adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd ar y cyfleoedd a gynigir gan garbon pridd a sut y gall technegau arloesol a ddefnyddir gan ffermwyr ar y tir wella manteision pridd a charbon.

5.3 Cytunodd Simon Neale i ddarparu nodyn am sut y byddai Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweld unrhyw drefniadau trosiannol o'r cynlluniau cyfredol i Opsiwn 3 arfaethedig adolygiad Echel 2 yn cael eu cyflawni.

### 6: Ymchwiliad i Echel 2 o'r Cynllun Datblygu Gwledig: Sesiwn Dystiolaeth

RDC(3)-18-08(p6)

6.1 Croesawodd y Cadeirydd Susan Fowler o Ganolfan Organig Cymru i'r cyfarfod ac fe'i gwahoddwyd i roi ei chyflwyniad ysgrifenedig. Bu'r Aelodau'n holi'r tyst.